| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20fed Mawrth 2013** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Y Cynghorydd David Smith, Parth Cyhoeddus** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Catrin Roberts, Swyddog Polisi Cynllunio** |

**Teitl: Adroddiad yn ôl ar ddogfen Canllawiau Cynllunio Interim Datblygu Ynni'r Gwynt ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus**

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y ddogfen Canllawiau Cynllunio Interim ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt, a chydnabod unrhyw newidiadau a gynigir i'r ddogfen o ganlyniad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y Canllawiau Cynllunio Interim ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt rhwng 7fed Tachwedd 2012 i 6ed Chwefror 2013.

1.2. Fel gyda'r gyfres o ddogfennau presennol Canllawiau Cynllunio Atodol, os caifff ei mabwysiadu, bydd dogfen Canllawiau Cynllunio Interim ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu'r Aelodau ynglŷn ag ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Interm Datblygu Ynni'r Gwynt, ac amlinellu unrhyw newidiadau a gynigir i'r ddogfen o ganlyniad i hynny. Gofynnir i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r ddogfen yn derfynol ar 9fed Ebrill 2013. Bydd unrhyw sylwadau a wneir yn y cyfarfod pwyllgor hwn yn cael eu hadrodd i'r Cyngor Llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n cydnabod sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori ac unrhyw newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r Canllawiau Cynllunio Interm ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt.

## 4. Manylion yr Adroddiad

*Cefndir*

4.1 Mae gan Sir Ddinbych ardal arwyddocaol o ucheldir gwledig sydd ag adnoddau gwynt toreithiog. Mae Coedwig Clocaenog wedi ei dynodi fel un o saith Ardal Chwilio Strategol yng Nghymru ac agwedd Llywodraeth Cymru yw cyfyngu datblygiad ffermydd gwynt mawrion i'r Ardaloedd Chwilio Strategol, sydd wedi eu hasesu fel yr ardaloedd mwyaf addas i ddatblygu ynni'r gwynt.

Fodd bynnag, nid yw polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn nodi cyfyngiadau gofodol ar gyfer datblygiad ynni'r gwynt dan 5 megawat (MW); mae datblygiadau dan 5MW yn berthnasol ym mhob ardal o Gymru yn amodol ar asesu'r effeithiau lleol.

4.2 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i gynhyrchu Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Adnewyddadwy ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, sydd ymhell ar y blaen o ran ei gwblhau. Mae'r Cyngor yn y broses o lunio'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer cynhyrchu CCA Ynni Adnewyddadwy a sicrhawyd cyllid Llywodraeth Cymru i alluogi i'r Cyngor ymgymryd ag asesiad o sensitifrwydd tirwedd i ynni'r gwynt. Mae'r gwaith hwn nawr ar y gweill.

4.4 Fodd bynnag, oherwydd bod nifer cynyddol o geisiadau cynllunio, ceisiadau Barn Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd ac ymholiadau cyn gwneud cais yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor am ddatblygiadau unigol a chlystyrau o dyrbinau gwynt o amrywiol feintiau ledled y sir, mae angen cyflwyno canllawiau cynllunio interim cyn cynhyrchu a mabwysiadu CCA Ynni Adnewyddadwy i roddi esboniadau a chanllawiau i ymgeiswyr, Swyddogion ac Aelodau.

4.5 Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Interim yw:

- Rhoi cyfarwyddyd ar y gofynion cynllunio ar gyfer datblygiadau tyrbinau gwynt
- Esbonio'r canllawiau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio wrth asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tyrbinau gwynt sydd wedi eu cyflwyno fel cynlluniau arallgyfeirio ffermydd neu gynlluniau cymunedol
- Esbonio agwedd y Cyngor tuag at Gynlluniau Manteision Cymunedol

*Ymgynghori*

4.6 Cytunwyd cynnwys y Canllawiau Cynllunio Interim drafft, eu cwmpas a'r bwriad i ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 17eg Hydref 2012.

4.7 Rhedodd yr ymgynghoriad cyhoeddus gwreiddiol ar y Canllawiau Cynllunio Interim drafft ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt am 9 wythnos o 7fed Tachwedd 2012 i 9fed Ionawr 2013. Ymestynnwyd y cyfnod hwn hyd at 6ed Chwefror 2013. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol, defnyddio gwefan y Cyngor a llythyr at 160 o bobl/fudiadau gan gynnwys Aelodau, Cynghorau Tref a Chymuned, ymgynghorai perthnasol megis cynrychiolwyr y diwydiant ynni adnewyddadwy, cyrff ffermio, mudiadau amgylcheddol lleol, grwpiau cymunedol ac aelodau'r cyhoedd, yn eu hysbysu o'r ymgynghoriad ac yn dweud wrthynt sut y gallent ymateb. Roedd copïau o'r dogfennau ar gael i'w gweld yn Swyddfeydd y Cyngor yng Nghaledfryn, Dinbych a Neuadd y Sir, Rhuthun, holl lyfrgelloedd cyhoeddus yn Sir Ddinbych ac ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

4.8 Derbyniodd y Cyngor 35 ymateb i'r ymgynghoriad, yn codi'r materion canlynol:

- Dylid cynnwys pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau ac anheddau trigiannol.
- Os nad yw manteision cymunedol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, pam eu cynnwys fel adran yn y canllawiau.
- Sicrhau ‘bond’ i ddadgomisiynu bob amser yn y cytundeb cyfreithiol.
- Dylai ystyriaethau effaith ar y dirwedd bob amser fod yn drech na manteision cymunedol ac arallgyfeirio ffermydd.
- Mae canllawiau sŵn ESTU yn hen ac nid ydynt bellach yn addas i’r pwrpas.
- A ydym yn deall yn llawn y goblygiadau economaidd i’r ardal wrth benderfynu ar geisiadau.
- Dylid ymgymryd ag Asesiad llawn o’r Effaith ar yr Amgylchedd ar gyfer pob tyrbin dros 11.1 medr.
- *Photomontages* a fframiau gwifren ddim yn adlewyrchol bob amser, dim byd tebyg i weld tyrbin 145 medr yn bersonol (ymweld â’r Alban).
- Gofyn am bellteroedd gwahanu lleiaf i osgoi effeithiau cysgodion symudol.
- Amddiffyn cyflenwadau dŵr preifat ar ôl y gwaith adeiladu.

4.9 Mae’r ymatebion i’r ymgynghoriad wedi eu crynhoi ac fe’u cynhwysir yn Atodiad 1, sydd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw newidiadau arfaethedig i’r Canllawiau Cynllunio Interim ar Ddatblygu Ynni’r Gwynt. Mae fersiwn diwygiedig y Canllawiau Cynllunio Interim ar Ddatblygu Ynni’r Gwynt, gyda’r newidiadau wedi eu marcio, yn Atodiad 2. Mae’r sylwadau gwreiddiol ar gael i’w gweld o ofyn i’r tîm Polisi Cynllunio.

4.10 Mae newidiadau allweddol arfaethedig i’r ddogfen yn cynnwys:
- Symud adran 3: Manteision Cymunedol, i’r Atodiad.
- Cynnwys Adran newydd A2.7 Adloniant a Mynediad.
- Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi ei wneud ac ymgynghori arno.
- Newid yr adran Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol i ymgorffori’r termau cyfredol.

4.11 Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi i Aelodau ar bwnc Arallgyfeirio Ffermydd ar 12fed Mawrth 2013. Lle mae’r drafodaeth yn berthnasol i gynnwys y CCI bydd y swyddogion yn adrodd ar hyn i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 20fed Mawrth 2013.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. *Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17.* Bydd y CCI yn cyfrannu’n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol arfaethedig canlynol:

- *Moderneiddio’r Cyngor i gyflawni arbedion effeithiolrwydd a gwella gwasanaethau i’n cwsmeriaid*: Bydd y CCI yn rhoi mwy o eglurder i ymgeiswyr a rhoi gwell gwybodaeth o ran cymryd penderfyniadau cynllunio.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

6.1. Nid oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol gan y bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno a’i hasesu fel rhan o gais cynllunio. Gellir cynhyrchu copïau o’r

Nodyn Canllawiau Cynllunio Interim ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt o fewn y gyllideb bresennol, tra bydd copi electronig o'r ddogfen ar gael ar y wefan.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a ymgymerwyd ar y penderfyniad? Dylid dodi templed EqIA fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Mae dogfen Canllawiau Cynllunio Interim ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt wedi ei sgrinio ac ni ystyrir bod angen asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb gan na fyddai'r ddogfen yn arwain at gamwahaniaethu anghyfreithiol, aflonyddiad ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r templed sgrinio a gwblhawyd ynghlwm fel Atodiad 3 i'r adroddiad.

**7. Pa ymgynghori a fu?**

7.1. Fel yr amlinellir yn adran 4.5 yr adroddiad, ymgymerwyd â phroses ymgynghori lawn.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1. Dylid cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau o fewn cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Nod y Canllawiau Cynllunio Interim yw egluro'r gofynion cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio tyrbinau gwynt a sefydlu canllawiau clir dan y rhain yr asesir cynlluniau arallgyfeirio ffermydd a chynlluniau ynni cymunedol cyn cynhyrchu a mabwysiadu Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy.

9.2 Heb arweiniad clir, mae perygl bod gwybodaeth annigonol yn cael ei chynnwys gyda cheisiadau cynllunio, a allai arwain at oedi wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Hefyd, ni fyddai unrhyw sylfaen cyson yn erbyn yr hwn y gellir asesu haeddiannau arallgyfeirio ffermydd a manteision cymunedol cynigion, a allai effeithio gallu'r Cyngor i gymryd penderfyniadau cynllunio cyson.

**10. Pŵer i Gymryd y Penderfyniad**

10.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.